CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - CHWEFROR 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 18 Chwefror
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan

1.	**Croeso** Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn bresennol roedd Elin Evans, Gwilym Ll Williams (Cad), Jason Hunt, Neal Williams, Nerys Evans, Gwilym V Thomas, hefyd yn bresennol roedd Caryl E Lewis (Clerc).
2.	**Ymddiheuriadau** Elwyn Jones, Aeron Jones, Tom Ellis, Rhys Owen.
3.	**Datgan Buddiant** Jason Hunt – Cais am nawdd Cynllun Rhandiroedd Rhostryfan Neal Williams – Cais am nawdd Ysgol Rhosgadfan.
4.	**Cadarnhau cofnodion 21 Ionawr 2015** Cytuno ei fod yn gofnod cywir
5.	**Materion i'w trafod:** a. **Addasu dogfennau tendro – Mynwent, llwybrau a cysgodfannau** Nododd y clerc fod hysbyseb wedi ei roi yn yr Herald a bydd yn papur yfory. Cytunwyd fod y dogfennau yn iawn fel yr oeddynt ond fod angen ychwanegu llwybr Pen y Muriau Rhosgadfan i'r rhestr llwybrau. Cytunwyd fod amlder glanhau cysgodfannau yn iawn fel y mae nhw. b. **Ceisiadau am nawdd** Nododd y clerc for 12 cais wedi eu derbyn. Cafwyd trafodaeth ar bob cais a cytunwyd fel a ganlyn: • Cylch Meithrin Llanwnda - £300 • Cae Chwarae Rhosgadfan - £1,000 ar yr amod eu bod yn cadarnhad sut maent yn gwario'r arian • Theatr Bara Caws - £100 • Clwb Peldroed Ieuenctid Bontnewydd - £250 • Treialon Cwn Defaid Llanllyfni - £50 • Ysgol Gynradd Rhosgadfan - £1,000 • Lleu - £100 • Prosiect Celf Ieuenctid Sbarc - £100 • Dawns i Bawb - £100 • Marie Curie - £200 • Rhandir Rhostryfan - £300 ar yr amod eu bod yn cadarnhau sut maent yn gwario'r arian. • Cylch Meithrin Bontnewydd – Dim mantolen wedi ei gynnwys a felly nid oedd yn bosib ystyried. • **Cyfanswm Nawdd £3,500** c. **Cyfansoddiad, Polisiau a Cynllun 5 mlynedd (AMJ)** Gohirio'r mater nes y bydd AMJ yn bresennol**.** d. **Tap dwr y fynwent (NE)** Mae'n debyg mai problem gyda'r peipiau dur dan ddaear ydyw. JH i wneud ymholiadau ynglyn a sut byddai rhywun yn mynd ati i newid y peipiau. Rhaid ystyried pa ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r tap ag os ydy werth mynd i gostau mawr. Clerc hefyd i holi os ydy Cyngor Gwynedd yn rhoi waterbutt allan am ddim. e. **Waun Bant – Llwybr (AMJ)** Nodwyd fd y llwybr sydd wedi ei nodi ar y map gan y swyddog llwybrau o bosib yn anghywir achos mae arwydd llwybr cyhoeddus ar y llwybr hwnnw.

	Clerc i wirio gyda Cyngor Gwynedd. f. **Lamp Braichmelyn, Rhostryfan (JH)** Clerc wedi adrodd ar y nam, Cyngor Gwynedd wedi ei logio a bydd yn rhoi sylw iddo maes o law**.** g. **Wal beryglus yn Rhosgadfan (NW)** Nododd y Clerc fod Cyngor Gwynedd yn edrych mewn i'r mater a byddent yn llythyru'r perchennog. h. **Sefyllfa parcio Aberalaw (Siop Sglodion) Rhosgadfan (GVT)** Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd, wedi derbyn ymateb yn nodi eu bod yn rhoi sylw i'r mater. i. **Cyflwr Speed Humps Rhosgadfan (GVT)** Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd, ymateb yn nodi y bydd arolygwr yn mynd o gwmpas y rhain yn fuan i'w hasesu. j. **Containter o flaen Bro Cadfan Rhosgadfan (MW)** Clerc wedi llythyru Cartrefi Cymuned Gwynedd. Llythyr ymateb wedi ei dderbyn yn uniaith Saeneg yn nodi y bydd y contractwyr yn symud y container erbyn 20 Chwefror. Angen llythyru'r Pennaeth yn nodi anfodlonrwydd aelodau mai llythyr uniaith saesneg sydd wedi ei dderbyn a fod hyn yn groes i'w polisi iaith. k. **Cwn yn cyfarth (MW)** Clerc wedi llythyr Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd. Llythyr ymateb wedi ei dderbyn yn nodi y bydd raid i'r rhai sy'n dioddef o'r swn gysylltu yn uniongyrchol gyda nhw i adrodd, yna gallent edrych mewn i'r mater. MW i hysbysu yr unigolion sydd wedi bod yn cwyno o hyn. l. **Hysbysfwrdd Dinas (EE)** Dim ond nodi y byddwn yn mynd mlaen i gyflwyno cais cynllunio. m. **Ymarfer da (AMJ)** Gohirio nes y bydd AMJ yn bresennol n. **Safle we integredig (AMJ)** Gohirio nes y bydd AMJ yn bresennol o. **Japanese knotweed - grantiau (RO)** Gohirio nes y bydd RO yn bresennol
6.	**Derbyn Adroddiadau** GVT – Nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan Heddlu Gogledd Cymru yn nodi fod y gwyn (Swn Saethu Rhosgadfan) bellach wedi cau. Gwers i'r dyfodol - os yn gwneud cwyn i'r heddlu eto, dylid gofyn iddynt fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned a nid cartref yr Aelod sydd wedi cyflwyno'r gwyn.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i'w adrodd
8.	**Materion Ariannol (Adroddiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod)** Cyflwynodd y Clerc adroddiad ariannol yn adrodd ar y sefyllfa hyd at 17/02/15 **<u>Ers cyfarfod 19 Ionawr 2015, talwyd allan:</u>** 101277 Sion Owen £200

	Ers cyfarfod 19 Ionawr 105, talwyd i mewn: Siec **£20** gan Mrs Thomas tuag at gynnal a chadw y fynwent Siec **£1,490** gan Cyngor Gwynedd – Ad-daliad Cynnal llwybrau cyhoeddus Taliad o **£500** gan Cyngor Gwynedd – Grant Cist Gwynedd Safle Gwe **Yn y Cyfrif Cadw ar derfyn busnes 17 Chwefror 2015: £13,465.33** **Yn y Cyfrif Siec ar derfyn busnes 17 Chwefror 2015: £4,127.13** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng ngyfarfod 18 Chwefror 2015:** Cyflog Clerc 402.50 Cyllid y Wlad (Swyddfa'r Post) 90.00 Zurich Municipal 1,366.85 J.D.Roberts CPFA 63.00 Hacker Young 480.00 **Cyfanswm 2,402.35** Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.
9.	**Materion Cynllunio** Cyflwynwyd y ceisiadau isod: Tir ger Bodafon, Rhosgadfan C14/0549/24/L - Dim sylw Tyddyn Seipar, Saron C11/0796/24/LL - Dim sylw Bryteg, Chatham, Saron C15/0083/24/LL - Dim sylw
10.	**Gohebiaeth:** a. Llythyr gan Zurich – Adnewyddu Yswiriant b. Fforwm Mynediad Lleol Arfon & Dwyfor – Cais am aelodau newydd i'r fforwm c. Ebost gan drigolyn o Rhostryfan - Llwybr Bryngwyn – giat wrth junction Tryfan yn anodd i'w agor. Nododd aelodau ei bod yn anodd ei agor a chau fel fod bobl ddim yn mynd a ceffylau arno ac yn gallu mynd a beic arno. Angen ymateb yn nodi fod y gwyn wedi ei nodi ac os bydd rhagor o gwynion byddwn yn ystyried newid y glicied. d. Ian Sanderson – Yn ceisio adnabod perchnogaeth tir ger Fron Deg, Rhostryfan. Nodwyd mai Tir Welsh Highland Railway ydy hwn. e. Hacker Young – anfoneb ac adroddiad wedi ei dderbyn. f. Heddlu Gogledd Cymru – Llythyr yn cadarnhau cau cwyn (swn saethu Rhosgadfan) wedi ei dderbyn. g. Cyngor Gwynedd – Llythyr yn cydnabod eu bod wedi rhyddau grant o £500 Cist Gwynedd tuag at y safle gwe. h. Unllais Cymru – Llythyr yn cynnig Aelodaeth blynyddol am £121 Cytuno i dreialu am flwyddyn
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **NE** – Safle gwarchod adar foryd bach – mae i weld yn dechrau cael ei drwsio. Dwr wrth ymyl ar groesfford, pen groeslon rhos isaf, yn dod or cae top, ydyr cyngor yn gwneud rhywbeth amdano? **Gwilym V Thomas** – llinellau gwynion ganol y lon fyny o Ffrwd Cae Du i sgwar Rhostryfan wedi gwisgo, angen ail-wneud, enwedig ar y troeadau, **Sedd wag rhosgadfan** – Cytuno i roi hysbyseb yn Lleu
	Daeth y cyfarfod i ben am 9yh **Dyddiad Cyfarfod nesaf**: **18 Mawrth 2015**